# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1264(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Hydref 2008

**At Michael German:**

I ddilyn fy ateb i'r cwestiwn y gwnaethoch chi ei ofyn i mi yn sesiwn holi'r Prif Weinidog ar 30 Medi, cytunais i chwilio am fanylion y cymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yn ei roi i'r rhai yng Nghymru sy'n dioddef yn sgil y dirywiad yn economi'r byd. Rydym ninnau a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i deimlo'n hyderus am ragolygon hirdymor ein heconomi. Mae'r Deyrnas Unedig mewn sefyllfa well i ymdopi â storm economaidd fyd eang nag yr oedd yn y 1970au, yr 80au neu'r 90au cynnar. Isod rwy'n disgrifio mesurau allweddol y ddwy lywodraeth i helpu teuluoedd a busnesau sy'n dioddef yn sgil y trafferthion economaidd byd eang hyn.

Mae ein polisïau economaidd yn canolbwyntio ar helpu economi Cymru i dyfu ac i barhau'n gystadleuol; bydd hyn yn ein helpu yn ystod yr ansicrwydd presennol. Mae'r prif wasanaethau fel Cymorth Hyblyg i Fusnes, ynghyd â'r Gronfa Fuddsoddi Sengl, wedi gweddnewid sut yr ydym yn annog pobl i fuddsoddi mewn busnesau. Mae Cymorth Hyblyg i Fusnes yn ymateb i anghenion busnesau unigol, ac yn denu arian sylweddol o Ewrop i gynyddu'n sylweddol yr hyn yr allwn ei gynnig.

Hefyd, bydd y gwelliannau yng nghymorth y dreth i fusnesau, a fydd yn cael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2008, yn rhoi hwb i fusnesau bach yn ystod y trafferthion economaidd. Gyda'r Cynllun Grantiau ar gyfer Cyfleusterau Cyhoeddus, mae'r pecyn hwn yn werth hyd at £7 miliwn o gymorth ychwanegol i fusnesau yn unol ag ymrwymiad Cymru'n Un. Gallai hyd at 10,500 o fusnesau elwa ar y cymorth hwn. Bydd y cymorth ychwanegol ar gyfer gofal plant ac undebau credyd yn rhoi hwb i Lywodraeth y Cynulliad wireddu'i nod o gynyddu darpariaeth y gwasanaethau hyn.

Yr wythnos ddiwethaf, er mwyn gwrthweithio anweithgarwch economaidd, gwnaethom lansio Genesis Cymru Wales 2, sef menter gwerth £70 miliwn sy'n defnyddio arian yr UE i helpu 20,000 o bobl i oresgyn eu rhwystrau rhag gweithio neu rhag cael hyfforddiant. Trwy becyn cynhwysfawr o gyngor, mentora un i un, cymorth tuag at hyfforddiant a gofal plant, nod y prosiect hwn yw helpu pobl i greu dyfodol annibynnol a llewyrchus iddynt eu hunain.

Yn gynharach heddiw, cafodd y cynllun adnewyddu ReAct, sy'n werth £35 miliwn, ei gyhoeddi. Dylai hwn helpu 12,000 o weithwyr sydd wedi cael eu diswyddo i wella eu sgiliau i fynd yn ôl i'r gwaith cyn gynted â phosibl, gan annog cyflogwyr i'w cyflogi trwy gynnig cymhorthdal ariannol iddynt.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn rhoi £5 miliwn ychwanegol i'r cynllun achub morgeisi er mwyn amddiffyn perchnogion tai sydd dan fygythiad o gael eu hadfeddiannu, rhag bod yn ddigartref. Cymorth ariannol ar gyfer yr achosion mwyaf argyfyngus yw hwn, lle nad oes ateb arall ac y byddai'r perchnogion fel arall yn mynd yn ddigartref.

Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn rhoi mwy o bwysau ar asiantaethau cynghori. Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru. Mae hyn yn rhagweld y bydd y Cymdeithasau Tai yn chwarae rôl ehangach. Rydym hefyd yn adolygu'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei dargedu'n briodol, ac rydym wedi cyhoeddi cymorth gwerth £4m i gefnogi'r cynllun hwn. Rhan o'r gwaith ar Gynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni yw hyn, a'n bwriad yw ymgynghori arno erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar ben hyn i gyd, mae gan Lywodraeth y DU nifer o fentrau i helpu perchnogion tai, sef:

- dileu treth stamp ar gyfer pob tŷ o dan £175,000 sy'n cael ei brynu yn ystod y flwyddyn nesaf;
- sicrhau bod prynwyr tro cyntaf yn cael dewis gwneud cais i elwa ar raglen rhannu ecwiti ehangach Homebuy Direct;
- rhoi cymorth yn gynharach i berchnogion tai sydd mewn trafferthion trwy roi Cymhorthdal ar gyfer Llog Morgais a lleihau nifer yr achosion o adfeddiannu trwy'r cynllun achub morgeisi newydd;
- gweithio gyda benthycwyr a grwpiau defnyddwyr i sicrhau cymorth a chyngor gwell i'r rhai sy'n wynebu trafferthion;
- sicrhau gwariant o £400 miliwn gan y Llywodraeth er mwyn creu hyd at 5,500 o gartrefi newydd i'w rhentu i'r cyhoedd am bris rhesymol yn ystod y 18 mis nesaf, tra bod y farchnad yn y sector preifat yn parhau'n wan;
- gweithio i wella marchnadoedd morgeisi a sicrhau cael arian yn rhwyddach, gan dderbyn cyngor adolygiad Syr James Crosby, a chyhoeddi adroddiad terfynol cyn diwedd y mis hwn.

Mesurau'r DU i helpu teuluoedd sy'n wynebu biliau bwyd a thanwydd uwch:

- cynyddu lwfans personol y dreth incwm £600 ar gyfer 2008-09, sy'n werth £120 i rywun sy'n talu treth ar y raddfa sylfaenol—mae cyhoeddi hyn cyn yr Adroddiad cyn y Gyllideb yn golygu y bydd pawb sy'n talu trethi ar y raddfa sylfaenol yn gweld y budd o hyn yn ei becyn cyflog o'r mis hwn ymlaen;
- gohirio'r cynydd yn y doll danwydd o fis Ebrill eleni i fis Ebrill 2009, gan arbed bron i £100 miliwn y mis i fusnesau a theuluoedd;
- gwneud taliadau ychwanegol o £50 i bobl dros 60 oed a £100 i bobl thros 80 oed, ochr yn ochr â'r taliad tanwydd gaeaf, a ddaw â budd i dua 9 miliwn o gartrefi;
- cyhoeddi pecyn gwerth £1 biliwn o fesurau arbed ynni, gan gynnwys gostyngiad o 50% ar nifer o ddyfeisiau ymarferol i arbed ynni ar gyfer pob cartref, gydag 11 miliwn o'r cartrefi sydd mewn perygl o ddioddef waethaf yn cael y rhain am ddim;
- cynnig cymorth ariannol, trwy'r Taliad Tanwydd Gaeaf, Cynllun Warm Front a'r Targed Lleihau Allyriadau Carbon ehangach;
- cael chwe chyflenwr ynni Prydain i dreblu eu gwariant blynyddol ar y cyd ar gymorth cymdeithasol i £150 miliwn erbyn 2011.

Mesurau'r DU i helpu busnesau a gafodd eu cyhoeddi yng nghyllideb 2008:

- cynyddu haelioni'r cynllun Gwarantu Benthyciadau i Fusnesau Bach ac ehangu'r cynllun i gynnwys busnesau dros 5 mlwydd oed;
- cynyddu Arian Cyfalaf i Fentrau, gan gynnwys creu cronfa ar gyfer busnesau sy'n cael eu harwain gan fenywod;
- cynyddu trothwy'r buddsoddwr ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau; a
- chynyddu trothwy opsiwn y cyfranddaliad unigol ar gyfer y cynllun Cymhelliad Rheoli Mentrau.

Mae'r sefyllfa fyd eang yn newid yn ddyddiol ac rydym yn monitro'r datblygiadau'n agos. Rydym yn croesawu, er enghraifft, cyhoeddiad diweddaraf y Canghellor ei fod wedi cytuno ar gynllun achub £50 biliwn ar gyfer system fancio'r DU.

Yn y cyfamser, rydym yn benderfynol o gael gwared ar aneffeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus, a sicrhau ein bod yn cael y gorau o bob punt yr ydym yn ei gwario yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau sydd yn dod â budd uniongyrchol i bobl Cymru. Yn sgil rheolaeth ariannol dda, yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, rydym wedi gallu

rhyddhau arian ychwanegol o'n cronfeydd wrth gefn er mwyn buddsoddi mwy yn ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

Mae effeithiau'r argyfwng bancio yn ymestyn yn bell ac maent y tu hwnt i reolaeth Llywodraethau'r Cynulliad a'r DU, ond rwy'n teimlo'n hyderus y bydd ein polisïau'n parhau i helpu pobl a busnesau Cymru yn yr amserau ddigynsail hyn.